Western Gateway
Porth y Gorllewin

Partneriaeth pwerdy Porth y Gorllewin
Y pwerdy ar gyfer de Cymru a gorllewin Lloegr

# Pweru dyfodol gwyrddach a thecach

Ionawr 2022





”

The Western Gateway provides a unique opportunity to level up communities on both sides of the Severn. Already a powerhouse for cyber and tech, research, engineering and the creative industries, the area has huge potential to create sustainable growth and help power the UK’s ambition to reach net zero.

This pan-regional partnership between south Wales and western England is a key part of this government’s plans to level up communities across the union. I look forward to working with them to create new opportunities and boost growth across the whole of our nation.

The Rt Hon Michael Gove MP, Secretary of State
for Levelling Up, Housing and Communities

# Cyflwyniad

**Mae ein hardal Porth y Gorllewin yn gartref i gymysgedd unigryw o bobl hynod fedrus ac arloesol sy'n angerddol am atebion cynaliadwy ochr yn ochr â diwydiant a menter arweiniol. Rydym am ddefnyddio hyn i bweru uchelgais y DU i gyrraedd sero-net tra hefyd yn darparu cyfleoedd i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.**

Gyda chefn gwlad hardd, tirnodau diwylliannol a sîn gelfyddydol fywiog, dyma le gwych i fyw ynddo sy'n gallu denu talent o'r radd flaenaf.

Er gwaethaf hyn i gyd, mae gormod yn byw mewn amddifadedd cymharol gyda diffyg mynediad at wasanaethau ac addysg dda. Rydym am ddefnyddio ein cryfderau i agor cyfleoedd newydd a chodi'r gwastad yn y cymunedau hyn.

Mae pobl leol yn ein hardal yn croesi'r ffin yn rheolaidd i fynd i'r gwaith, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a gweld teulu, ac mae dros 140,000 o deithiau'n cael eu cyflawni y dydd ar draws pont Hafren a llawer mwy ar y trên. Rydym am sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a bod cyfleoedd ar gael ar draws yr undeb yn ogystal â bod o fudd i'n holl gymunedau.

Mae gan ein partneriaeth pwerdy rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu digonedd ac ychwanegedd gwirioneddol i brosiectau, seilwaith a strategaethau diwydiannol sy'n bodoli eisoes.



Yn dilyn dwy flynedd o feithrin perthnasoedd a datblygu ein sylfaen dystiolaeth, mae'r prosbectws hwn yn cyflwyno gweledigaeth feiddgar ar gyfer sut y byddwn yn defnyddio ein huchelgais a'n sgiliau fel catalydd ar gyfer ffyniant a dyfodol gwell a gwyrddach i bawb.

**Katherine Bennett CBE –**
**Cadeirydd Partneriaeth Porth y Gorllewin**

> Gyda chefn gwlad hardd, tirnodau diwylliannol a sîn gelfyddydol fywiog, dyma le gwych i fyw ynddo sy'n gallu denu talent o'r radd flaenaf.



# Pwy ydym ni

## Ein partneriaeth Porth y Gorllewin yw pwerdy rhanbarthol cyntaf y DU i ymestyn dros ddwy wlad. Mae ein pwerdy, sy'n cwmpasu De Cymru a Gorllewin Lloegr, yn cysylltu'r Undeb ac mae dinasoedd craidd Bryste a Chaerdydd wrth ei wraidd.

Rydym yn canolbwyntio ar wireddu twf economaidd i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu yn awr ac yn y dyfodol. Drwy ddefnyddio ein cryfderau cyffredin i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd sero-net, gallwn greu cyfleoedd newydd i godi'r gwastad yn y broses ac adeiladu economi gynaliadwy.

Rydym yn dechrau o sefyllfa dda. Mae ein hardal yn gartref i glystyrau gweithgynhyrchu uwch a thechnoleg uwch o'r radd flaenaf, prifysgolion rhagorol a busnesau cystadleuol.

Er gwaethaf hyn, mae llawer o gymunedau o fewn Porth y Gorllewin wedi'u gadael ar ôl, gyda rhai'n dioddef o'r lefelau amddifadedd uchaf yn y wlad. Bydd ein partneriaeth yn arwain gwaith i greu cyfleoedd newydd, codi'r gwastad a sicrhau dyfodol gwyrddach a thecach i bawb.



> **Mae ein hardal yn gartref i glystyrau gweithgynhyrchu uwch a thechnoleg uwch o'r radd flaenaf, prifysgolion rhagorol a busnesau cystadleuol.**



**8** dinas,
**3** Dinas-ranbarth,
and **2** bartneriaeth economaidd

**£34** biliwn i'r economi erbyn 2030

**4.4** miliwn o bobl

Gwerth **£21** biliwn o nwyddau'n cael eu hallforio a **£11** biliwn o wasanaethau'n cael eu hallforio

**2.1** miliwn o swyddi

Economi gwerth **£107** biliwn

Byddai gwario **£580m** yn ychwanegol mewn ymchwil a datblygu yn codi de-orllewin Lloegr i gyfartaledd y DU. **£480m** yng Nghymru.

# Sut rydym yn gweithio

## Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, busnesau a phrifysgolion y sector cyhoeddus i ryddhau ein potensial sydd heb ei wireddu. Mae ein gwaith wedi'i seilio ar set graidd o egwyddorion sy'n ein hymrwymo i:

**ARWAIN** pan y bydd ein maint yn cyflawni mwy i'n pobl ac economïau ehangach ein gwledydd nag y gallai ein rhannau cyfansoddiadol eu cyflawni ar eu pennau eu hunain.

**CYDWEITHIO** ar gyfleoedd a arweinir gan bartneriaid i gynyddu eu gwelededd, eu heffaith a'u cyrhaeddiad.

**DENU'R** dalent a'r arbenigedd o bob rhan o'n hardal i sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan y dystiolaeth orau bosibl.

**HYRWYDDO** a rhoi sylw i waith pobl eraill.

# Ein cenhadaeth

### CENHADAETH 1: CYFRANNU £34 BILIWN I'R ECONOMI

Cynyddu lefelau cynhyrchiant i gau'r bwlch gyda chyfartaledd y DU gan 50%.

### CENHADAETH 2: DENU BUDDSODDIAD A HYBU ALLFORION GAN £4 BILIWN

Hyrwyddo'r ardal yn rhyngwladol a thyfu allforion i gyrraedd cyfartaledd y DU.

### CENHADAETH 3: DATGARBONEIDDIO EIN HECONOMI

Gosod yr ardal fel arweinydd byd-eang mewn systemau ynni adnewyddadwy gwyrdd.

### CENHADAETH 4: CYSYLLTU CYMUNEDAU

Gwireddu rhwydwaith trafnidiaeth integredig a gwella cysylltedd digidol i godi'r gwastad o ran mynediad i swyddi, addysg a chyfleoedd.

### CENHADAETH 5: DATGLOI ARLOESEDD

Creu uwch-glwstwr digidol sy'n manteisio ar gryfderau ein sectorau gwerth uchel fel peirianneg uwch, telathrebu a diwydiannau creadigol.

Bydd ein llwyddiant yn gwneud mwy na chyfrannu biliynau o bunnoedd i'r economi. Bydd hefyd yn codi'r gwastad i wella ansawdd bywydau pobl ar draws ein hardal, ac yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol, ein harfordir a'n cefn gwlad yn hygyrch i bawb.



# Ar waith

## Cenhadaeth 1: Cyfrannu £34 biliwn i'r economi

Mae Porth y Gorllewin yn cyfrannu 6% at gyfanswm economi'r DU bob blwyddyn. Er gwaethaf ein maint cymharol fach, mae ein GYG y pen o'r boblogaeth yn sylweddol uwch yn 2019 nag yr oedd naill ai ym Mhwerdy Gogledd Lloegr neu Ganolbarth Lloegr. Er gwaethaf hyn, mae ein cynhyrchiant yn is na chyfartaledd y DU.  Amcangyfrifodd ein hadolygiad economaidd annibynnol diweddaraf y gallem roi hwb o £34 biliwn i'n heconomi pe bawn yn cau'r bwlch hwn gan 50% yn unig.

Ac mae gennym resymau cryf dros gredu bod hyn yn bosibl.  Rydym yn gartref i 55.5% o fusnesau twf uchel y DU ac mae gennym gryfderau mewn sectorau gan gynnwys gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch, seiber, technoleg ariannol a diwydiannau creadigol.

Drwy weithio gyda phartneriaid i gryfhau cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi a busnes, byddwn yn meithrin cydweithio rhwng cwmnïau, cyfleusterau a chadwyni cyflenwi ac yn sicrhau bod busnesau â photensial mewn ardaloedd gwledig yn elwa ar yr un effeithiau cadarnhaol â'r rhai mewn ardaloedd trefol.

### GWEITHGYNHYRCHU A PHEIRIANNEG UWCH

Mae 55% o led-ddargludyddion ffonau symudol y byd yn cael eu cynhyrchu ym Mhorth y Gorllewin

### SEIBER

Economi seiber fwyaf arbenigol y DUY clwstwr seiber mwyaf a mwyaf datblygedig yn Ewrop

### TECHNOLEG ARIANNOL

2 allan o 10 o glystyrau technoleg ariannol y DU

### Y DIWYDIANNAU CREADIGOL

Y deg ardal uchaf ar gyfer clystyrau creadigol a thechnoleg uwch yn y DU



## Ar waith:

Rydym yn dwyn ynghyd fusnesau, ymchwil, buddsoddi ac arloesi i greu economi'r dyfodol o fewn Porth y Gorllewin. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i gynyddu ein cynhyrchiant, cryfhau cydweithrediadau a chyfleoedd i rannu gwybodaeth wrth i ni wireddu ein potensial.

# Cenhadaeth 2: Denu buddsoddiad a hybu allforion gan £4 biliwn

Mae Porth y Gorllewin eisoes yn borth byd-eang. Cartref i ddau borthladd dyfnfor a dau faes awyr sy'n darparu mynediad uniongyrchol i farchnadoedd rhyngwladol ochr yn ochr â'r cwmnïau sy'n arwain y byd, mae gennym lawer y gallwn ei gynnig i'r economi fyd-eang.

Gan adeiladu ar dystiolaeth gan y llywodraeth a'n partneriaid, rydym yn datblygu dull cydgysylltiedig o hyrwyddo ein cryfderau a'n hasedau sectoraidd cyffredin i farchnadoedd rhyngwladol allweddol.

Rydym yn canolbwyntio ar dyfu ein brand byd-eang. Gweithio gyda phartneriaid i ddenu buddsoddiad a chynhyrchu'r twf a arweinir gan allforion sydd ei angen i gau'r bwlch gyda chyfartaledd y DU a bydd hynny'n ychwanegu £4 biliwn at yr economi.

Mae ein busnesau mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn. Cynyddodd allforion seiber y DU gan 90% o 2018 i bron i £4 biliwn yn rhyngwladol a disgwylir i'r galw am y cynhyrchion hyn barhau i dyfu'n gyflym. Mae sector awyrofod sifil cryf Porth y Gorllewin hefyd yn allforiwr mawr ar gyfer y DU ochr yn ochr â'n sector creadigol sy'n cystadlu ar lefel fyd-eang.

Dangoswyd bod busnesau sy'n allforio yn fwy cynhyrchiol. Bydd cau'r bwlch hwn nid yn unig yn rhoi hwb i gynhyrchiant, ond hefyd yn arwain at gyflogau uwch.

## Ar waith:

Ym mis Mawrth 2022, bydd Porth y Gorllewin yn ymuno â phartneriaid yn MIPIM Cannes i hyrwyddo'r ardal, ei sectorau cryf ac ansawdd bywyd fel y lle delfrydol i fuddsoddi ynddo. Ym mis Mai 2022, bydd Porth y Gorllewin yn croesawu ei bartneriaid yn fforwm buddsoddi a seilwaith Eiddo Tirol y DU (UKREiiF) 2022 i arddangos cynigion buddsoddi ar draws yr ardal.

# Cenhadaeth 3: Cynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddatgarboneiddio ein heconomi

Mae gan Borth y Gorllewin yr holl elfennau sydd eu hangen i ddod yn glwstwr ynni gwyrdd sy'n arwain y byd. Mae'r rhain yn cynnwys asedau naturiol sylweddol mewn galluoedd solar, llanw, morol a gwynt ac arwain y ffordd mewn hydrogen, niwclear a datgarboneiddio diwydiannol.

Drwy fanteisio ar y cryfderau hyn, mae gennym gyfle i arwain yn fyd-eang ar ddarparu atebion ynni glân ac adnewyddadwy newydd i helpu i ddatgarboneiddio ein heconomi, gan agor cyfleoedd newydd i bobl leol ar yr un pryd.

Mae ein cryfderau allweddol yn cynnwys:

### HYDROGEN

Mae ein cryfderau yn y tanwydd hwn sy'n dod i'r amlwg yn ymestyn o Glwstwr Diwydiannol De Cymru i'r hyb hydrogen sy'n cael ei ddatblygu yn Swindon. Rydym ar fin dod yn glwstwr Hydrogen integredig o arwyddocâd cenedlaethol, ac rydym yn mapio gwaith ar draws ein hardal i gysylltu a chreu cyfleoedd ar y cyd.

### YMASIAD

Helpodd ein gweithfeydd wedi'u datgomisiynu yn Oldbury a Berkley i arloesi ynni ymasiad niwclear yn y DU. Mae'r dreftadaeth niwclear hon a'r arbenigedd arloesol yn sail i achos Porth y Gorllewin i fod yn gartref prototeip ymasiad UKAEA STEP yn y dyfodol.

### LLANW

Mae gan Aber Afon Hafren y potensial i gyfrannu hyd at saith y cant o angen ynni'r DU. Yng Nghaerdydd a datblygiad Eden Las yn Abertawe, bwriedir gwneud gwaith i ddatblygu morlynnoedd llanw a fydd yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o brosiect ehangach. Bydd ein partneriaeth pwerdy yn edrych ar beth arall y gellid ei wneud i fanteisio ar botensial yr Aber.

## Ar waith: Ymasiad STEP

Rydym yn arwain y cais i ddod â gwaith prototeip ymasiad STEP cyntaf y DU i'n hardal. Byddai ein cais Bro Hafren am y safle yn Oldbury a Berkeley yn cynnig mynediad i glwstwr mwyaf y diwydiant niwclear yn y DU, arbenigedd sy'n arwain y byd mewn peirianneg tymheredd uchel a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Ymasiad, a byddai'n golygu miloedd o swyddi a biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad ar gyfer yr ardal.

Mae ein safle'n cynnig cyfle i ddatblygu safle a oedd yn arloesi ym maes hollti niwclear ac a fyddai'n rhoi cyfleoedd newydd i gymunedau difreintiedig lleol ar ddwy ochr afon Hafren ynghyd â'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a fydd yn helpu i greu gweithlu'r dyfodol.

# Cenhadaeth 4:
# Cysylltu cymunedau i godi'r gwastad o ran mynediad at swyddi, addysg a chyfleoedd

Er bod ein hardal yn ffyniannus ar y cyfan, mae pocedi sylweddol o amddifadedd ac anghydraddoldebau yn bodoli ymhlith ein cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n cael eu dadleoli gan y pandemig a thrwy ddad-ddiwydiannu.

Yn aml, nid yw llawer ohonynt yn gallu elwa rhyw lawer ar ein cymdeithas lewyrchus. Nid yn unig y mae problemau hanesyddol gyda thrafnidiaeth yn ein hardal ond rydym hefyd yn llusgo y tu ôl i gyfartaledd y DU ar gyfer cysylltedd digidol.

Mae cysylltu'r cymunedau hyn â chyfleoedd economaidd-gymdeithasol o fewn ein gafael. Mae 140,000 o bobl yn croesi Afon Hafren bob dydd ac mae dros hanner poblogaeth y DU yn byw o fewn 2 awr i'n ffiniau. Mae'r gwaith o drydaneiddio Prif Rwydwaith y Great Western bron â chwpla ac mae gwerth biliynau o bunnoedd o fuddsoddiadau i systemau metro dinas-ranbarth yn mynd rhagddynt. Rydym am sicrhau y gall pobl leol groesi ffiniau'n hawdd a chael mynediad cyflym i bwerdai economaidd eraill, gan gynnwys Injan Canolbarth Lloegr a Phwerdy Gogledd Lloegr.

Ein huchelgais yw adeiladu ar y sylfeini hyn i gysylltu cymunedau'n well â'i gilydd yn ogystal â'r system drafnidiaeth genedlaethol, rhoi hwb i gynhyrchiant, datgloi twf tai a chefnogi ein newid i ddyfodol 'sero-net'. Byddai hyn yn sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu canolfannau cyflogaeth, addysg o ansawdd uchel a'r sefydliadau diwylliannol a'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol sydd gan ein dinasoedd, o'r arfordir i gefn gwlad, i'w cynnig.



## Ar waith

Mae gan Borth y Gorllewin rôl allweddol i'w chwarae o ran dod ag arbenigedd ynghyd i ddeall yr hyn y gellid ei wneud ac adeiladu sylfaen dystiolaeth. Rydym yn awyddus i fapio sut y gallai rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol a rhanbarthol 'delfrydol' edrych yn 2050 i ddeall pa fylchau sy'n bodoli ac awgrymu syniadau ar gyfer rhaglen waith i'r ardal yn y dyfodol.

# Cenhadaeth 5: Datgloi rhagor o arloesedd a yrrir gan dechnoleg ddigidol yn rhai o'r sectorau yr ychwanegir y gwerth mwyaf

Mae Porth y Gorllewin yn arloesol iawn. Mae Cymru a'r de-orllewin Lloegr ehangach yn rhagori ar gyfartaledd y Deyrnas Unedig a'r UE o ran mynegai Arloesi'r UE, ac mae de-orllewin Lloegr yn gartref i 52.5% o fusnesau twf uchel y DU. Mae ecosystem o brifysgolion, busnesau newydd sector cyhoeddus a'r sector preifat, busnesau twf, cwmnïau rhyngwladol a seilwaith arloesi yn cynnig atyniad technolegol ar yr un pryd â gyrru'r mabwysiadu a'r lledaenu ar dechnoleg.

Mae'r ecosystem unigryw hon wedi denu buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys swyddfa newydd o'r radd flaenaf cwmni BT ym Mryste, Datblygiad Golden Valley sy'n gartref i Cyber Central yn Cheltenham a chanolfan seiber gyntaf y DU a arweinir gan fusnes yn Wiltshire.

Mae gan yr ardal glystyrau hynod arloesol mewn Peirianneg Uwch, Diwydiannau Creadigol, Cysylltedd Digidol (telathrebu symudol) ac Atebion Data (busnesau sy'n creu cyfoeth o ddata fel technoleg ariannol a'r gofod). Dyma rai o'r sectorau sy'n ychwanegu'r gwerth uchaf yn y DU a, chyda chefnogaeth well, maent yn rhoi'r cyfle gorau i gryfhau rôl y DU ymhlith y goreuon yn y byd yn wyddonol.



## Ar waith

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatgloi rhagor o arloesedd a yrrir gan dechnoleg ddigidol yn rhai o'r sectorau sy'n ychwanegu'r gwerth uchaf yn y DU. Drwy ysgogi gwaith i greu clwstwr awyrofod ac amddiffyn mwyaf Ewrop a chlwstwr cyntaf y byd sy'n ymroddedig i led-ddargludyddion cyfansawdd, mae gan Borth y Gorllewin gyfle unigryw i greu uwch-glwstwr digidol ar raddfa i gystadlu ar y llwyfan byd-eang.

Pweru dyfodol gwyrddach a thecach

Western Gateway

Porth y Gorllewin

Bristol City Council

Bath & North East Somerset Council
Improving People's Lives

Cardiff Capital Region

Cardiff Caerdydd

Gloucestershire County Council

gfirst LEP
growing gloucestershire

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

North Somerset Council

South Gloucestershire Council
Delivering for you

Bargen Ddinesig Bae Abertawe
Swansea Bay City Deal

Cyngor Abertawe
Swansea Council

Swindon Borough Council

Swindon & Wiltshire
Local Enterprise Partnership

West of England Combined Authority

West of England
Local Enterprise Partnership

Wiltshire Council

